



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

CEIJA STOJKA (CHAYA STOYKA)

Roedd Ceija Stojka yn Sipsi Romani a erlidiwyd gan y Naziïaid. Cafodd ei hallgludo gyda 200 aelod o'i theulu estynedig i Auschwitz lle y llofruddiwyd y mwyafrif ohonynt ar ôl cyrraedd. Yn ddiweddarach, treuliodd Ceija Stojka ei hamser yn hyrwyddo hawliau'r bobl Roma gan amlygu'r hyn all ddigwydd pan fydd rhagfarn a chasineb yn cymryd gafael trwy ei phrofiadau ei hun.

'Rwy'n cofio Auschwitz bob munud o'm bywyd'



Ganwyd Ceija yn 1933 yn Awstria, y pumed o chwech o blant. Roedd yn rhan o deulu Roma o'r llwyth *Lovari*, sef grŵp o bobl Roma oedd yn cynnwys masnachwyr ceffylau'n draddodiadol. Roedd y teulu'n arwain bywyd nomadig gan deithio ar hyd a lled Awstria. Roedd blwyddyn genedigaeth Ceija yn cydfynd â'r flwyddyn y daeth Hitler i rym yn yr Almaen. Roedd hynny'n arwydd o newid i Ceija a'i theulu, yn ogystal â'r miliynau o bobl eraill a dargedwyd gan bolisïau'r Naziïaid.

Yn 1941 pan oedd Ceija yn wyth oed, cymerwyd ei thad o'r teulu a'i allgludo i wersyll carchar Dachau. Yn ddiweddarach cafodd ei drosglwyddo i Ganolfan Ewthanasia Castell Hartheim, lle cafodd ei lofruddio. Yn 1943 allgludwyd gweddill teulu Ceija i wersyll difodi Auschwitz-Birkenau. Anfonwyd y rhan fwyaf o deulu estynedig Stojka i farw ar ôl cyrraedd y gwerysll. Pan gyrhaeddodd ei theulu Auschwitz, dywedodd fam Ceija gelwydd i'r SS, gan ddweud ei bod yn 16 oed ond yn fach am ei hoedran. Mewn

gwirionedd roedd ond yn 10 oed. Golygodd hyn ei bod yn ddigon hen i weithio yn adran llafur gorfodol y gwerysll ac arbedwyd ei bywyd.

Yn ystod y cyfnod yn Auschwitz, dewiswyd Ceija, ei mam a'i chwaer fel rhan o grŵp i fynd i Ravensbrück, gwerysll carchar i ferched yn unig. Unwaith eto, peryglodd fam Ceija ei bywyd ei hun er mwyn helpu menyw arall yn eu barics. Gsisgodd fab y fenyw fel merch fel y gallai'r fam a'i phlentyn aros gyda'i gilydd. Dylanwadodd fam Ceija'n fawr ar ei bywyd, yn ystod y cyfnod yn y gwerysll oedd carchar a thrwy gydol gweddill ei bywyd. Yn 1945 rhyddhawyd Ceija o wersyll Bergen-Belsen yn 12 oed. O'r 200 aelod o deulu estynedig Ceija, dim ond Ceija, ei mam a phedwar brawd a chwaer fywiodd.

Ar ôl y rhyfel dychwelodd Ceija i Awstria gyda'i brawd a'i chwaer a gwnaethant fywoliaeth yn gwerthu carpedi. Gwelodd aelodau'r teulu fywiodd nad oedd profiadau'r Romani yn ystod y rhyfel yn cael eu cydnabod ac yn Awstria parhaodd rhai o'r polisïau gwrth-Romani hyd yn oed.

Yn 1986, yn 56 oed, dechreuodd Ceija baentio; daeth ei phrofiadau'n ganolog i'w gwaith. Yn aml roedd ei chelf yn adlewyrchu trawma ei phrofiadau ac roedd yn cynnwys ysgrifennu straeon a

darluniadau gweledol fel modd o rannu ei phrofiadau gyda'r byd, tra'n adlewyrchu ar ein dynoliaeth cynfrannol.

'Rwy' am ddangos fy mynd fy hun i'r bobl. Mae'n bwysig deall ein bod i gyd yn ddynol ac mae celf yn ein galluogi i fyw a bodoli. Gall celf ein cysylltu.'



Datblygodd waith Ceija yr ymwybyddiaeth gynyddol o brofiad y Roma o dan y Naziïaid. Yn aml roedd ei gwaith yn dangos bywyd yn y gwerylloedd, yn ogystal â bywyd y Romani cyn yr hil-laddiad. Aeth ymlaen i ysgrifennu un o gyfrifon hunan-fywgraffiadol cyntaf Roma o'r *Porrajmos* neu'r 'llochwio', y term a ddefnyddir i ddisgrifio hil-laddiad poblogaeth Roma a Sinti (Sipsi) Ewrop. Helpodd llyfr Ceija, *We Live in Seclusion: The Memories of a Romani*, a ryddhawyd yn 1988, i godi ymwybyddiaeth ryngwladol o'r ymgais i ddifa'r Sipsiwn. Daeth ei hunangofiant a'i phaentiadau y profiadau anhysbys hyn i'r golwg mewn ffordd newydd ac arloesol. Mewn cymdeithas draddodiadol *Lovari* gwelwyd bod ysgrifennu Ceija fel torri tabŵ. Roedd hynny gan fod tynnu sylw at eich hun yn cael ei ystyried yn waith i ddyn. Teimlodd Ceija ei fod yn hanfodol bod pobl yn dod yn ymwybodol o'r erledigaeth y profodd hi, ei theulu a thua 200,000 o Sipsi Roma a Sinti eraill dan ddwylo'r Naziïaid.

Dywedodd: 'Os na fydd y byd yn newid nawr, os nad yw'r byd yn agor ei drysau a'i ffenestri, os nad yw'n adeiladu heddwch - gwir heddwch - fel bod gan fy ngorwyrion gyfle i fyw yn y byd hwn, yna alla i ddim egluro pam wnes i oroesi Auschwitz, Bergen-Belsen a Ravensbrück.'

Arddangoswyd celf Ceija ledled Ewrop, yn Siapan a'r UDA. Bu farw Ceija yn Vienna yn 2013 yn 79 oed. Hi oedd y fenyw dorrodd y tabŵs yn ei chymuned ei hun, yn gorfod gwneud hynny gan bwysigrwydd siarad am erledigaeth y bobl Roma gan y Naziïaid. Defnyddiodd brofiadau ei bywyd i helpu herio'r gwahaniaethau cyfoes parhaus o bobl Roma heddiw.

'Mae gen i ofn fod Ewrop yn anghofio ei gorffennol ac mai dim ond cysgu mae Auschwitz. Mae bygythiadau, polisïau a gweithredoedd gwrth-Sipsi yn fy mhoeni yn fawr ac yn fy nhristâu.'

Llun: © Forget Us Not

I gael rhagor o wybodaeth:

- Darllenwch am [Erledigaeth y Naziïaid o Sipsi Romani](#) ar wefan HMDT
- ['Ceija Stojka: Holocaust survivor who championed Roma rights'](#), *The Independent*, 31 Ionawr 2013
- Ceija Stojka yn yr [United States Holocaust Memorial Museum Holocaust Encyclopaedia](#)
- [Forget Us Not](#), Dir. Heather E Connel, 2010
- ['Roma Holocaust survivor and artist Ceija Stojka dies'](#), *BBC News*, 30 Ionawr 2013